Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Caer Elen

**Heol Llwynhelyg**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA62 4BN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Caer Elen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Caer Elen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Pob oed |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 839 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 761 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 78 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Ddim yn berthnasol |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn ysgolion pob-oed yw 21.6%) | 9.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn ysgolion pob-oed yw 12.7%) | 18.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 22/02/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 06/02/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Caer Elen yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu i fod yn unigolion egwyddorol ac yn dysgu am eu cynefin a'r diwylliant lleol. Mae'r pennaeth a'i uwch dîm rheoli yn angerddol ac yn arddel y safonau uchaf o'u staff a disgyblion. Mae arweinwyr yn weithgar wrth adeiladu dilyniant parhaus mewn addysgeg a lles effeithiol sy'n caniatáu i Ysgol Caer Elen weithredu fel ysgol pob oed lwyddiannus.

Ar draws yr holl ysgol, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn trin ei gilydd ac oedolion yn fonheddig a gyda pharch. Dangosant fwynhad ym mywyd yr ysgol a boddhad yn eu dysgu. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gyfradd presenoldeb sy'n arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd byw bywyd iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Maent yn ymgymryd yn barod â chyfleoedd i gadw'n heini ac i ddysgu am eu hiechyd a'u lles. Mae ganddynt lais weithredol ym mywyd yr ysgol trwy nifer o bwyllgorau disgyblion effeithiol.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r ystod o gyfleoedd gwerth chweil sydd ar gael i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws meysydd perthnasol o'r cwricwlwm. O ganlyniad, gwna lawer o ddisgyblion gynnydd cryf ac maent yn cyrraedd safonau uchel yn eu medrau, yn enwedig eu medrau darllen a digidol. Mae'r ysgol hefyd yn dathlu Cymreictod ac yn hyrwyddo bob cyfle i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus. Mae agwedd disgyblion tuag eu haddysg a thuag at yr iaith Gymraeg yn dda iawn. Mae eu hymroddiad tuag at eu gweithgareddau addysgol yn arbennig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynhwysfawr iawn.

Mae gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ynghyd â ffocws ar wella addysgu a datblygu'r medrau, wedi arwain at weledigaeth gref a chlir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Serch hynny, erbyn cyfnod allweddol 4, mae'r dewis o gyrsiau galwedigaethol yn brin.

Mae'r holl staff a disgyblion yn arddel arwyddair yr ysgol, 'Daw derwen fawr o fesen fach' ac yn perchnogi eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae diwylliant amlwg o arfarnu a gwella yn yr ysgol ac mae arweinwyr yn ymroddedig iawn i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer disgyblion. Mae gweledigaeth glir ar gyfer creu ysgol sy'n 'sefydliad sydd yn dysgu'.

## Argymhellion

A1 Ehangu’r arlwy o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yng nghyfnod allweddol 4

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â 1. cynllunio’n gydlynus i ddatblygu medrau disgyblion a 2. Datblygu’r Gymraeg ar draws yr ystod oedran.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros eu hamser yn yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn dod yn hyfedr yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol. Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol yn llwyddiannus a'u cymhwyso i waith newydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn cofio ffeithiau am ddraenogod a disgyblion Blwyddyn 10 yn adalw nodweddion cerddoriaeth o wahanol gyfnodau.

O oedran cynnar iawn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud gyda phwrpas ar gyfarwyddiadau ac esboniadau oedolion, a chyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer yn arddangos medrau llafar cryf yn y Gymraeg a Saesneg er eu bod yn cychwyn yr ysgol gyda medrau is na'r disgwyl. Maent yn ateb yn estynedig gyda rhesymau cryf dros eu safbwyntiau. Yn eu ffordd gwrtais a thawel, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n synhwyrol, aeddfed a gofalus at drafodaethau dosbarth. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn trafod eu syniadau'n frwdfrydig mewn parau a grwpiau bychan ac ar brydiau yn gwerthuso gwaith eu cyfoedion gan roi adborth defnyddiol. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n weithredol gan ymateb i gyfarwyddiadau'r athro heb orfod gofyn am gymorth nac eglurhad pellach. Un nodwedd arbennig yw'r cynnydd cyflym a llwyddiannus a wna disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr, yn eu medrau Cymraeg. Maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus a rhugl.

Mae safonau medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg yn gryfder amlwg. Mae disgyblion o oedran cynradd yn darllen yn dda ac yn mwynhau darllen yn y ddwy iaith. Mae llawer yn darllen yn glir gan ddefnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau. Mae tua hanner o ddisgyblion yn newid goslef eu llais yn bwrpasol a gall y rhan fwyaf ddarllen testunau mwy cymhleth, yn annibynnol, gan ganolbwyntio'n briodol. Mae'r rhan fwyaf, mewn gwersi, yn dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe yn llwyddiannus gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio.

Mae llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn sgimio a sganio'n llwyddiannus i gywain gwybodaeth. Pan gyfyd y cyfle, mae'r rhan fwyaf yn darllen ar goedd yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Mae llawer yn ymateb yn dda i ddeunydd darllen, er enghraifft yn eu gwersi daearyddiaeth wrth ystyried darn allan o lyfr 'Factfulness' gan Hans Rosling yn trafod 'Gall Affrica ddal i fyny?'. Mae disgyblion uwch eu gallu yn gallu mynd dan groen yr arddull ac adnabod technegau iaith gan ystyried eu heffaith ar y darllenydd. Mae mwyafrif y disgyblion hyn yn dehongli testun yn llwyddiannus trwy adnabod ffurfiau y mae'r awdur wedi eu defnyddio i greu tensiwn a dirgelwch. Mae llawer yn llwyddo i ddadansoddi darnau darllen yn effeithiol a chanfod ystyr mewn darnau llenyddol, er enghraifft pan fyddant yn dehongli dramâu Shakespeare.

Mae medrau ysgrifennu cynnar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n dda. Ar ôl cyfnod byr yn yr ysgol, maent yn dod i ddal offer yn fwy cywir er mwyn dechrau creu marciau, er enghraifft trwy baentio, gwneud marciau gyda sialc a lliwio yn gywir. O

oedran cynnar, gall y disgyblion mwyaf abl ysgrifennu brawddegau estynedig, er enghraifft wrth baratoi dyddiadur yn sôn am eu profiadau. Maent yn amrywio strwythur brawddegau yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu dyddiaduron dychmygol yn grefftus yn y ddwy iaith. Defnyddiant ystod gynyddol o strwythurau brawddegau gan gyfleu teimladau yn ystyrlon a disgrifio gweithgareddau yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau, is-benawdau, lle bo hynny'n briodol, ac yn ysgrifennu'n hyderus ar gyfer gwahanol bwrpas.

Yn gyffredinol, mae disgyblion o oedran uwchradd yn ysgrifennu'n estynedig yn hyderus yn eu gwersi iaith ac ar draws y cwricwlwm. Mae gan lawer ddealltwriaeth briodol o reolau gramadegol ac ystod dda o eirfa i'w galluogi i gyfleu eu syniadau neu i rannu gwybodaeth yn eglur yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn ystyried y gynulleidfa'n ofalus, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson Catrin John ar ddiwedd y ffilm 'Y Gwyll'. Serch hynny, mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n esgeulus gan wneud gwallau sillafu ac atalnodi elfennol, a defnyddio cystrawen letchwith.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y gwersi mathemateg a meysydd dysgu eraill. Mae llawer o ddisgyblion ym mlynyddoedd isaf yr ysgol yn dod yn fwy hyderus wrth greu ac adnabod patrymau sy'n ailadrodd, er enghraifft wrth osod offer mawr mewn grwpiau yn ôl eu lliwiau ac yna'n trefnu'r offer yn ôl patrwm lliw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddewis yr offer cywir i fesur gwrthrychau. Maent yn darllen mesuriadau'n gywir gan ddefnyddio unedau safonol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dulliau cyfrifo i gael cyfansymiau penodol ac mae ganddynt afael gadarn ar y cysylltiad rhwng adio a lluosi.

Mae llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn cyfrifo'n gywir yn y pen gan ddefnyddio'r pedair rheol. Er enghraifft, yn eu gwersi technoleg, maent yn cyfrifo'r elw neu golled y bydd busnes yn ei wneud ar wahanol lefel o werthiant. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhif cryf iawn. Er enghraifft, maent yn gallu cyfrifo arffiniau isaf ac uchaf buanedd car rasio. Mae llawer yn datblygu eu medrau siâp a mesur yn dda. Maent yn gallu cyfrifo arwynebeddau a chyfeintiau amrywiaeth o siapiau. Mae medrau dadansoddi data datblygedig gan lawer o ddisgyblion. Maent yn cyfrifo mesurau ystadegol crynodol ac yn llunio graffiau cywir. Gallant ddefnyddio'u cyfartaleddau a'u graffiau i ddod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn plotio graffiau cywir i ddangos effaith crynodiad siwgr ar y lefel mae burum yn codi.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn ymchwilio ar y we yn hyderus, er enghraifft i ganfod gwybodaeth ynglŷn ag adar gan greu ffeil o ffeithiau difyr. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn rhaglennu'n gywir i symud teclyn digidol ar hyd llwybr penodol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno gwybodaeth yn fedrus. Er enghraifft, maent yn cyrchu gwybodaeth o'r we am organau'r corff gan gynnwys recordiad llais i ddisgrifio pwrpas yr organau.

Mae medrau digidol disgyblion o oedran uwchradd yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu profiadau blaenorol. Mae gan lawer o'r disgyblion fedrau digidol cymwys iawn. Er enghraifft, maent yn creu siart addas i arddangos y data ar y newid cyfrannol mewn disgwyliad oes yng ngwledydd Affrica. Mae llawer yn fedrus wrth ddefnyddio meddalwedd cymhleth i gyfansoddi cerddoriaeth, creu gemau digidol a dylunio

pecynnau i faint a chynllun penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau codio pwrpasol, er enghraifft i greu eu gwefannau eu hunain ar ynni adnewyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu creadigrwydd yn llwyddiannus o oedran cynnar iawn. Mae disgyblion oedran meithrin, er enghraifft, yn adeiladu roced allan o focsys yn yr ardal allanol ac yn gwisgo i fyny fel cymeriadau i chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion o oedran derbyn yn arbrofi'n dda â deunyddiau naturiol megis clai, brigau a cherrig man i greu modelau gan esbonio eu rhesymeg dros eu dewis o ddeunyddiau. Ym Mlwyddyn 5, gall mwyafrif y disgyblion greu cyflwyniadau yn seiliedig ar nodweddion celf fel graffiti a darluniau brodorol. Mae disgyblion o oedran uwchradd yn datblygu eu creadigrwydd ymhellach yn gelfydd trwy'r cyfleoedd gwerthfawr i berfformio darnau o ddramâu, dylunio sgriptiau, creu stribedi cartŵn yn eu gwersi iaith neu ddylunio gwrthrychau yn eu gwersi technoleg.

Dengys llawer o ddisgyblion fedrau corfforol cadarn sy'n eu galluogi i wneud amrywiaeth o ymarferion i wella eu ffitrwydd. Maent yn datblygu medrau modur mân o oedran cynnar, er enghraifft wrth rolio toes a thorri siapiau. Maent yn adeiladu'r medrau mawr yn hyderus i ddatblygu'r cydbwysedd a symudiad. Erbyn cyrraedd oedran uwchradd, maent yn rheoli eu corff yn dda i gymryd rhan mewn llawer o weithgarwch chwaraeon fel pêl-rwyd, pêl-fasged a gymnasteg yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad bron pob disgybl yr ysgol yn arbennig o dda. Maent yn trin oedolion a'i gilydd gyda pharch a chwrteisi ac yn cyfarch ymwelwyr yn serchog, gan ddangos balchder yn eu hysgol a'u gwaith. Symudant o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol a pharchus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus y byddai'r staff yn delio'n gyflym ag unrhyw broblem petaent yn codi. Mae llawer yn ymwybodol o at bwy y gallent droi os byddant yn poeni am unrhyw beth, neu os byddant am siarad ag oedolyn. Maent yn wybodus iawn am yr asiantaethau allai eu helpu pe bai angen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd byw bywyd iach. Maent yn ymgymryd yn awyddus ag amryw weithgareddau addysg gorfforol, yn y gwersi ac mewn clybiau allgyrsiol. Gallant siarad yn wybodus am beth yw diet cytbwys ac maent yn ymwybodol bod eu llais wedi dylanwadu ar benderfyniadau o fewn y ffreutur. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl a'r holl gymorth sydd ar gael iddynt o fewn yr ysgol. Maent hefyd yn wybodus am bwysigrwydd diogelu eu hunain ar-lein drwy wersi penodol a thrwy wrando ar ymwelwyr.

Mae disgyblion yn awyddus i ymgymryd â rolau arwain a chânt gyfleoedd i ymuno ag un o'r nifer o bwyllgorau sy'n cynrychioli eu cyfoedion. Mae'r grŵp elusennol yn annog disgyblion i gyfrannu'n gyson at achosion da, er enghraifft at elusen iechyd meddwl ffermwyr sy'n agos at galon yr ysgol. Mae gan hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion eraill yn lleol ac yn ehangach. Mae'r grŵp amrywiaeth yn weithgar yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o grwpiau lleiafrifol. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd cynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae cynrychiolwyr o'r pwyllgorau yn ymuno â'r 'Senedd' sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol drwy sicrhau bod llais a barn disgyblion yn gallu dylanwadu ar ei gwaith. Er enghraifft, bu'r 'Senedd' yn llwyddiannus wrth sicrhau bod prisiau a gwybodaeth am

fwyd yn cael eu harddangos yn amlwg yn y ffreutur. Y ‘Senedd’ hefyd benderfynodd ar y gwerthoedd sy’n rhan annatod o ethos a diwylliant yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag ADY a’r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac yn cael cymorth i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, ac yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn cydweithio’n dda iawn ag eraill mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn ddysgwyr brwd sydd yn deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau gan fod hyn yn rhan bwysig o’r broses ddysgu. O oedran ifanc, maent yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol a chwilfrydig ac yn canolbwyntio’n dda ar eu tasgau. Mae ganddynt y wybodaeth a’r hyder i ddyfalbarhau heb lawer o gynhaliaeth gan yr athro. Mae’r rhan fwyaf yn brydlon i’w gwersi, yn setlo’n gyflym ac yn dangos agwedd bositif tuag at ddechrau ar y gweithgareddau a’r tasgau yn eu sesiynau dysgu. Maent yn parhau â’u gwaith yn aeddfed ac yn anwybyddu unrhyw aflonyddwch o fewn y dosbarth yn yr achosion prin hynny pan maen nhw’n codi. Mae bron pob un yn dangos parch ac ymdrech yn eu llyfrau gan drafod eu gwaith â balchder. Mae agweddau bron bob disgybl yn gadarnhaol at y Gymraeg ac maent yn dangos balchder a mwynhad amlwg yn eu hiaith a’u diwylliant.

Mae disgyblion yn mynychu’r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â’r llynedd, ac mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn arwyddocaol uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae perthynas waith ardderchog rhwng y staff a’r disgyblion. Mae’r staff wedi llwyddo i greu awyrgylch gynhwysol, gartrefol a pharchus ym mhob dosbarth. Mae arferion defnyddiol gan athrawon i sicrhau bod y disgyblion bron yn ddieithriad yn setlo’n gyflym ar ddechrau’r sesiynau dysgu ac yn cydymffurfio â rheolau a disgwyliadau’r ysgol.

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol, ac mewn lleiafrif o’r sesiynau, mae’r addysgu o ansawdd rhagorol. Mae’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae’r sesiynau dysgu yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y disgyblion ac mae’r athrawon yn wybodus am y camau dysgu sydd eu hangen er mwyn symud y dysgu ymlaen. Yn yr arferion gorau, maent yn defnyddio adnoddau cyfoes a pherthnasol sy’n dal sylw bron pob disgybl. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn holi cwestiynau treiddgar sy’n annog y disgyblion i feddwl ac i fyfyrio, er enghraifft wrth ymhél â gweithgaredd ymarferol wrth adeiladu bondiau rhif ym mlynyddoedd isaf yr ysgol, neu ym Mlwyddyn 9 wrth ystyried ymagweddau tuag at hiliaeth.

Nodwedd ragorol o’r addysgu yw’r ffordd mae’r ysgol yn llwyddo i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion o’r camau cyntaf ac ar hyd yr ysgol, gan gynnwys yr uned drochi hynod effeithiol. Mae staff yr ysgol yn modelu iaith goeth ym mhob dosbarth. Yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, maent yn drilio patrymau iaith ac yn cynnig cyfleoedd i’r disgyblion ddefnyddio’r patrymau mewn cyd-destunau go iawn. Mae’r staff yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a defnyddiant y derminoleg a’r eirfa bynciol yn gywir a chyson. Maent yn esbonio ac yn egluro cysyniadau cymhleth yn hynod glir. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw’r modd mae staff yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy’n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr.

Yn fuan iawn, mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n siaradwyr rhugl sy'n gallu astudio'r holl gwricwlwm drwy'r Gymraeg.

Mae'r sylw a roddir i ddatblygu medrau'r disgyblion yn gyson dda. Trefna'r athrawon gyfleoedd bwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y disgyblion. Hefyd, rhoddir sylw da iawn i ddatblygu medrau digidol y disgyblion ar draws yr ysgol. Ym Mlwyddyn 4, er enghraifft, mae'r athrawon yn cyfeirio'r disgyblion i ddefnyddio eu gwybodaeth am rinweddau gwahanol anifeiliaid i lunio siart llif gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol.

Cynigir adborth ac anogaeth briodol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn unol â pholisi asesu'r ysgol. Mae tasgau penodol yn cael eu hasesu yn fwy manwl ac mae'r athrawon yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir. Mae athrawon yn darparu adroddiadau defnyddiol i rieni/gwarchodwyr am gynnydd eu plant a gwnânt ddefnydd rheolaidd o lwyfannau digidol penodol i gyfleu gwybodaeth am eu gwaith.

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru, ac wrth wraidd y cynllunio, mae ffocws clir a chryf ar ddatblygu medrau disgyblion a gwella'r addysgu. Mae staff wedi datblygu a chyflwyno unedau gwaith diddorol sy'n anelu at ddatblygu gwybodaeth bynciol, dealltwriaeth a medrau disgyblion. Er enghraifft, mewn gwersi'r dyniaethau, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cwblhau prosiect ar greu gwlad newydd gan feddwl am leoliad, hinsawdd, baner a system wleidyddol i'r wlad honno. Mae'r ysgol yn arbrofi wrth ddatblygu addysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth sy'n cynnwys ardaloedd penodol i hybu a datblygu medrau trawsgwricwlaidd fel y 'Lloches Llythrennedd', 'Ynys Ymchwilio' a'r 'Den Digidol'. Maent yn cydweithio'n ofalus â'r ysgolion cynradd partner i ddechrau cynllunio'r dilyniant dysgu.

Ceir arlwy lled addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 gydag opsiynau sy'n bodloni llawer o'r disgyblion ac yn arwain at gymwysterau priodol. Mae'r ysgol yn darparu ychydig o gyfleoedd gwerthfawr i ymestyn y disgyblion mwy abl, er enghraifft drwy gynnig cyrsiau fel 'mathemateg ychwanegol' ym Mlwyddyn 11. Mae'r ysgol, mewn partneriaeth â'r coleg lleol, yn darparu ychydig o gyrsiau academaidd a galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 sydd yn gynhwysol i bawb. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r arlwy o gyrsiau galwedigaethol a gynigir i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gynhwysfawr ac yn cynorthwyo datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o wybodaeth sydd wedi ei chasglu o arolygon llais disgyblion ac yn dylunio sesiynau perthnasol sy'n ymateb i faterion cyfredol. Yn y sesiynau iechyd a lles, myfyrdodau dyddiol a'r gwasanaethau wythnosol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ystyried a gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae'r ysgol yn gweithio gyda llu o bartneriaid i sicrhau bod sesiynau priodol ar gyfer rhai themâu yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio â'r gwasanaeth 'Gweithredu dros blant' er mwyn codi ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach. Serch hyn, nid yw'r ddarpariaeth ABCh wedi'i chynllunio'n ddigon cydlynus i sicrhau darpariaeth gyson a chynyddol i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Nodwedd o gryfder yn yr ysgol yw'r modd mae cydlynwyr y medrau yn cydweithio'n llwyddiannus â'r staff i sicrhau bod disgyblion yn elwa o gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau ar hyd eu hamser yn yr ysgol. Trwy eu harweiniad egnïol, maent yn cydlynu'r ddarpariaeth yn grefftus sydd wedi galluogi staff i elwa o hyfforddiant ac

adnoddau gwerthfawr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio’r deunyddiau hyn yn effeithiol pan fyddant yn cynllunio gwersi i gefnogi datblygiad medrau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael budd o gyfleoedd digidol gwerthfawr wrth ddefnyddio taenlenni i gyfrifo cymedr a chanolrif data am garfan rygbi Cymru. Mae’r arweinwyr yn parhau i ddatblygu eu gwefan atyniadol sy’n cynnwys adnoddau pwrpasol i gynorthwyo athrawon i gynllunio tasgau cyfoethog. Yn ogystal, maent hefyd yn dadansoddi amrywiaeth o ddata cyrhaeddiad yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd â medrau rhifedd a llythrennedd gwan ac yn darparu ymyraethau priodol ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae’r ysgol yn ymfalchïo yn ei chynlluniau i wreiddio, hyrwyddo a dathlu Cymreictod a threftadaeth Gymreig ar draws yr ysgol ac mae hyn yn nodwedd gref. Mae’r pwyllgor Cymreictod yn chwarae rhan bwysig wrth drefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes Cymru ac ymdrochi mewn diwylliant Cymreig. Er enghraifft, maent yn dysgu am feirdd, artistiaid ac awduron lleol ac yn gwrando ar drac cerddorol band y pythefnos.

Cyfoethogir profiadau dysgu’r disgyblion yn hynod werthfawr trwy arlwy eang o brofiadau allgyrsiol amrywiol megis clybiau ac ymarferion chwaraeon, celfyddydol a diwylliannol. Fel rhan o gyfoethogi’r cwricwlwm, mae’r ysgol wedi trefnu teithiau addysgol buddiol i leoliadau lleol a rhyngwladol gan gynnwys Gwlad yr Iâ.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Caer Elen yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae cefnogaeth effeithiol i ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu i fod yn unigolion cyflawn, moesol sy’n falch o’u cynefin lleol a’r diwylliant Cymreig.

Mae'r ddarpariaeth lles yn yr ysgol yn gryfder ac mae’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Mae’r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo. Er enghraifft, drwy ddarparu cyfle dyddiol i ddisgyblion nodi sut maent yn teimlo o ran eu hiechyd meddwl ac os oes angen, i allu derbyn mynediad at gymorth emosiynol gan aelod o staff.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn gynhwysfawr iawn ar draws yr ysgol. Mae ystod eang o ymyraethau effeithiol sy’n sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth briodol ac amserol. Mae perfformiad y disgyblion hyn yn cael ei olrhain yn ofalus o ran sgorau yn eu medrau sylfaenol, eu hasesiadau personol, ac yn erbyn eu targedau academaidd. O ganlyniad i’r gefnogaeth, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae prosesau tynn yn eu lle ar gyfer cyflawni’r gofynion o ran y cynlluniau datblygu unigol ac mae’r arolygon statudol blynyddol yn cynnwys y disgybl, y rhieni ac unigolion perthnasol eraill.

Mae staff yn olrhain cynnydd cyffredinol disgyblion yn effeithiol. Trwy hyn, mae’r arweinwyr cynnydd yn adnabod anghenion disgyblion ar draws yr holl feysydd ac yn trefnu darpariaeth briodol ar eu cyfer. Mae'r disgyblion sy'n mynychu'r ardal ‘Parhau i Ddysgu’ yn derbyn ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Er enghraifft, mae disgyblion ag anghenion emosiynol yn cael mynediad at ddarpariaeth effeithiol er mwyn eu cynorthwyo i ddelio â’u hemosiynau ac ymdopi â bywyd dyddiol. Mae’r staff yn sicrhau bod prosesau pontio cadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo rhwng y cyfnodau gwahanol.

Mae ‘Senedd’ yr ysgol yn weithgar iawn ac yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn llywio penderfyniadau am ddyfodol yr ysgol. Mae aelodau’r ‘Senedd’ wedi cyfrannu at addasiadau yn y polisi addysgu a dysgu ac wedi trafod gyda staff yr ysgol er mwyn sicrhau digon o amrywiaeth o ran bwydydd iach yn y ffreutur. Mae nifer helaeth o is-bwyllgorau wedi cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod barn disgyblion yn cael dylanwad cryf ar waith yr ysgol. Ymysg y rhain mae pwyllgor eco ac amgylchedd a phwyllgor e-ddysgu. Mae’r pwyllgor amrywiaeth wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o LHDTC+ a hanes pobl dduon ac wedi sefydlu clwb amrywiaeth yn ystod amseroedd cinio.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, munud i feddwl, ‘byd yn ei le’ a thrwy eu rhaglen ABCh. Mae’r rhaglen wedi ei theilwra yn ôl yr angen at anghenion lles disgyblion yr ysgol gan gynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, asiantaethau niferus a diwrnodau iechyd a lles cyson.

Mae staff yn gweithio’n effeithiol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid allanol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd ac ieuenctid i gefnogi lles disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i adnabod disgyblion bregus ac mae lles y disgyblion hyn yn cael ei gefnogi a’i fonitro’n effeithiol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau allgyrsiol a gweithgareddau gwerthfawr sy’n helpu i hyrwyddo ffordd iach o fyw a datblygiad cymdeithasol cadarnhaol. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, clwb codio a chlwb gwyddbwyll.

Mae’r ysgol yn cynnig cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar yrfaoedd i helpu disgyblion wneud dewisiadau am eu dyfodol. Mae’r ysgol yn trefnu nosweithiau agored a sesiynau blasu sy’n bodloni diddordebau disgyblion yn dda. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o yrfaoedd, gan gynnwys sesiynau gan gyflogwyr lleol a siaradwyr gwadd. Gall pob disgybl fanteisio ar gyngor ac arweiniad buddiol a chânt eu hannog i fynychu diwrnodau agored colegau neu ysgolion eraill.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant ac ethos o barch yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn arbennig o dda. Mae’r ysgol wedi mynd i’r afael â chodi presenoldeb mewn modd bwriadus ac effeithiol sydd wedi arwain at gynnydd cryf yn y cyfraddau presenoldeb. Maent yn defnyddio strategaethau buddiol fel gwobrwyo a chysylltu â’r cartref yn llwyddiannus.

Mae trefniadau cadarn i ddiogelu disgyblion. Mae diwylliant ac ethos yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion a’u diogelwch yn effeithiol. Mae’r person dynodedig diogelu yn darparu arweiniad a hyfforddiant cynhwysfawr i’r holl staff ac yn sicrhau bod pob un yn deall eu cyfrifoldeb dros ddiogelu disgyblion ac atal radicaliaeth. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag asiantaethau priodol i ymateb yn effeithiol i bryderon am ddisgyblion. Mae safle ac adeiladau’r ysgol yn eang a braf sy’n hwyluso awyrgylch tawel a threfnus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol a doeth sy’n uchel ei barch ymhlith y staff, y disgyblion a’r gymuned. Seilir ei weledigaeth ar gynnig profiadau dysgu ac addysgu o’r radd flaenaf mewn amgylchedd Gymreig o barch a charedigrwydd sy’n greiddiol i holl agweddau bywyd yr ysgol. Mae’n cyfathrebu ei weledigaeth yn huawdl ac

argyhoeddedig gyda'r holl randdeiliaid a'r gymuned leol. Mae'r pennaeth yn weledol o amgylch yr ysgol ac yn fodel rôl dylanwadol.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn cydweithio'n agos iawn ac yn modelu a hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol ac uchelgeisiol yn eu gwaith pob dydd. Mae arweinyddiaeth gref wedi cyfrannu at sicrhau safonau lles uchel, cynnydd cadarn disgyblion ac addysgu effeithiol. Mae holl staff a disgyblion yr ysgol yn arddel arwyddair yr ysgol, 'Daw derwen fawr o fesen fach' ac yn perchnogi eu rôl a'u cyfrifoldebau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion a'r staff yn hynod falch o fod yn rhan o un gymuned deuluol, gofalgar a Chymreig yr ysgol.

Mae dyletswyddau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n addas i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau ac maent yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn chwarae rhan allweddol mewn gwireddu prif flaenoriaethau'r ysgol, sef y Cwricwlwm i Gymru, dysgu ac addysgu, lles, tegwch a chynhwysiant a chryfhau a mireinio systemau arweinyddiaeth.

Ceir strwythurau clir o gyfarfodydd llinell, meysydd dysgu a phrofiad a chymunedau dysgu sy'n rhoi sylw dyledus a chyson i addysgu, dysgu, a lles disgyblion. O ganlyniad, mae atebolrwydd clir ar bob lefel. Trwy gynnig adborth adeiladol a chyson, caiff arweinwyr canol eu herio a'u cefnogi yn effeithiol gan eu rheolwyr llinell.

Mae diwylliant amlwg o werthuso a gwella yn yr ysgol ac mae arweinwyr yn ymroddedig iawn i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer disgyblion. Mae gweledigaeth glir ar gyfer creu ysgol sy'n 'sefydliad sydd yn dysgu'. Maent wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd gwaith yr ysgol sy'n arwain at welliannau cadarn. Defnyddiant ystod dda o ddulliau er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r wybodaeth a ddaw i law o'r gweithgareddau gwerthuso yn cael ei defnyddio'n ystyrlon er mwyn creu nifer hylaw o flaenoriaethau gwella ar gyfer yr ysgol gyfan. Yn ogystal, mae arweinwyr canol yn dyfeisio cynlluniau addas i wella ansawdd y ddarpariaeth yn y meysydd dysgu a phrofiad unigol y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae arweinwyr canol yn cyfrannu'n dda at y diwylliant gwerthuso a gwella, gan drafod agweddau ar addysgu a dysgu gyda rheolwyr llinell a chreu adroddiadau cynnydd gwerthfawr.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â gweddill y staff ar gyfer bodloni eu blaenoriaethau gwella, gyda pherchnogaeth amlwg ganddynt oll tuag at eu gwireddu. O ganlyniad i'r gwaith arfarnu a gwella effeithiol hwn, mae'r ysgol yn datblygu hanes cadarn o welliant. Enghraifft dda yw gwaith yr ysgol i sefydlu'r Cwricwlwm i Gymru ar draws yr ysgol a'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau, gwybodaeth a phrofiadau disgyblion yn ddilynol. O ganlyniad, mae disgyblion yn adeiladu ar eu profiadau blaenorol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Rhoddir sylw teilwng i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r disgwyliadau uchel a'r ethos ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a dathlu treftadaeth Gymreig yn nodwedd gref. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drochi mewn diwylliant Cymreig ac ymfalchïo yn eu gwlad. Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd unigryw a chyffrous i ddisgyblion Ysgol Caer Elen wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan yr ysgol

gynlluniau strategol pwrpasol ar gyfer lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Rhoddwyd hyfforddiant gwerthfawr i staff i'w helpu i ddeall yn well effaith tlodi ac amddifadedd ar gyrhaeddiad a lles plant, a sut i ddarparu'n effeithiol er mwyn gyrru gwelliant.

Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas gynhyrchiol a chadarnhaol gyda rhieni a'r gymuned. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion a rhieni fynegi eu barn ar waith yr ysgol. Maent yn llythyru'n rheolaidd gyda diweddariadau ac arweiniad a gweithdrefnau i rieni. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn dda trwy gylchlythyr 'Y Dderwen' a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol brosesau rheoli perfformiad trylwyr sy'n sicrhau cyfleoedd da i staff fyfyrio ar eu hymarferion a gosod camau datblygu synhwyrol. Mae rhain yn cael eu monitro a'u gwerthuso yn fanwl ac amserol. Mae gonestrwydd a thrylwyredd y broses yn llwyddo i yrru gwelliannau yn y dysgu ac addysgu.

Mae ymrwymiad y staff at wella eu harfer broffesiynol yn nodwedd amlwg. Mae'r staff yn myfyrio ar eu harfer ac yn adnabod eu hanghenion dysgu unigol. Darperir ystod dda o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar eu cyfer, sydd hefyd yn cydweddu â blaenoriaethau'r cynllun gwella. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu medrau arwain y staff ar wahanol lefelau ac maent yn elwa o'r cyfleoedd i sydd ar gael. Mae arsylwi cyfoed a chydweithio ar draws timau dysgu yn nodwedd gref sy'n cyfrannu at ddatblygiad athrawon a'r cymorthyddion fel ei gilydd. Yn ogystal, mae cydweithio ag ysgolion lleol a rhai mewn awdurdodau eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad proffesiynol staff ac arweinwyr yr ysgol. Mae dysgu proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ar ddatblygu medrau digidol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn brofiadol a theyrngar ac yn gwarchod buddiannau'r ysgol yn ofalus. Mae ganddynt ddealltwriaeth lawn o rôl yr ysgol i gynnig darpariaeth addysg Gymraeg i'w chymuned. Meddant ar wybodaeth gynhwysfawr am ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella ac mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o flaenoriaethau gwella'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r uwch dîm arwain ar nifer o faterion pwysig. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol â meysydd dysgu a phrofiad penodol ac maent yn defnyddio eu harbenigeddau i weithredu fel cyfaill beirniadol i arweinwyr canol. Mae'r corff llywodraethol yn cymryd y cyfrifoldeb i sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn ofalus. Mae ganddynt strategaeth gyllido bwrpasol lle mae cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, er enghraifft i ddarparu cludiant i sesiynau ar ôl ysgol a gwersi offerynnol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o deuluoedd incwm isel.. Gwneir defnydd da iawn o'r amgylchedd dysgu er mwyn cynnig profiadau dysgu cofiadwy i'r disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 12/04/2023